


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF PORTHMADOG A GYNHALIWDYD DRWY GYFRWNG ZOOM AR NOS FAWRTH IONAWR 12 2021

**Presennol :** Cynghorwyr : Gwilym Jones ( Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Jason Humphreys, , Llywelyn Rhys, Ian Jones, Stuart Nashir-Hallard, Carol Hayes, Simon Brooks ,Richard Williams  
Marian Roberts ( Clerc)

**Ymddiheuriadau. :** Nia Jeffreys, Bethan Rees Jones

### **91.1.21 Adroddiad y Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf 2021. Roedd y Cadeirydd yn gobeithio i bawb gael cystal Nadolig a Blwyddyn Newydd ag oedd yn bosibl o dan yr amgylchiadau. Dechreuodd gyda rhywfaint o newyddion trist. Roedd yn dymuno i'r Cynghorwyr ymuno ag o i estyn eu cydymdeimlad â Dr Melfyn Edwards a'i deulu ar ei brofedigaeth o golli ei dad.

Newyddion trist hefyd i'r Cyngor oedd clywed bod y Cynghorydd Dafydd Lake wedi penderfynu ymddiswyddo o'i sedd oherwydd rhesymau teuluol. Yn ystod ei amser gyda'r Cyngor Tref mae Dafydd wedi cyfrannu'n dda at fusnes y Cyngor a gobeithio ei fod wedi mwynhau ei gyfnod fel Cynghorydd Tref Porthmadog. Byddai'n dda pe gallai'r Cyngor ricriwtio person ifanc, sy'n wybodus am y dref fel ef i lenwi'r sedd.

Mae'r Covid wedi cael yr un effaith ar fusnesau yma fel ar bobman arall. Am gryn amser roedd yn ymddangos ein bod yn mynd i gael ein heffeithio yn ysgafn ond ers y cyfarfod diwethaf rydym wedi gweld Ysgol Borth y Gest yn gorfod cau cyn y lleill gan fod aelodau o'r staff wedi profi'n positif yn ogystal â nifer o'r plant. Diolch i'r rhain yn lleol sydd wedi aros gartref ac wedi cadw at y rheolau er mwyn cadw heintiau mor isel â phosib.

Mae swyddfeydd trethi Tŷ Moelwyn wedi cael eu dymchwel. Gobeithio erbyn i'r gwesty newydd agor y bydd llwyth o bobl yn ymweld â'r dref fel y gellir rhoi'r diwydiant lletygarwch yn yr ardal yn ôl ar y trywydd iawn.

### **92.1.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod 8.12.20**

Yn dilyn cais gan Cyng Jason Humphreys i ychwanegu "*holi os oes gostyngiad gan Lywodraeth Cymru i dreth Busnes y toledau dros y cyfnod clo*" i fater 84.12.20

**Penderfynwyd :** gweithredu i ysgrifennu unwaith eto at Gyngor Gwynedd i ofyn y cwestiwn uchod a derbyn y cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng. Selwyn Griffiths , Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

### **93.1.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

Dim datganiad.

### **94.1.21 Materion i'w dwyn gerbron :**

#### **➤ Cynnig Cyng. Aled Griffith:-**

Cynlluniau i'r dyfodol – Yn dilyn cyfarfod mis Rhagfyr a cheisiadau grantiau gyda amser yn brin i gyflawni. **A oes bosib cael rhestr o eitemau (wish list) gan wahanol gynghorwyr i wella Ardal Porthmadog/Morfa Bychan/Borth y Gest a Thremadog, cael amcan bris am y cynlluniau fydd yn cael eu cytuno gan gynghorwyr?** Wedyn fuasai bosib i Gyngor Tref Porthmadog ymateb i unrhyw geisiadau grantiau sydd yn cael eu cyflwyno ac amser cyflawni yn brin.

Trafodwyd pwysigrwydd adfer bywyd cymdeithasol trigolion a phobl ifanc ardal Porthmadog yn dilyn y cyfnod clo. Trafodwyd syniadau megis holi cynghorau eraill ac Unllais i ddarganfod beth sy'n gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill; cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod yr union fater yma; ail godi'r Clwb Ieuentid fel eitem sefydlog ar y rhaglen; fod angen holi ac adnabod anghenion yr ardal. Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud eisoes i ganfod anghenion ac i weld y ffordd ymlaen ond nad oedd unrhyw weithredu wedi digwydd.

**Penderfynwyd** :- ysgrifennu at Gyngor Tref Cricieth i wahôdd un ohonynt i ddod i gyfarfod Cynghorwyr Tref Porthmadog er mwyn rhannu arfer dda a chynnig cyngor pellach yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys a Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

- **95.1.21 Cynnig Cyng. Richard Williams :- trafod biliau trydan Scottish Power am oleuadau Nadolig.**

Yn absenoldeb Cyng Richard Williams penderfynwyd pasio'r mater ymlaen i gyfarfod Mis Chwefror.

- **96.1.21 Cynnig gan Cyng. Selwyn Griffiths :- trafod cynrychiolaeth y Cyngor ar Gorff Lywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn**

Oherwydd sefyllfa'r cyfnod clo presennol ni chafodd Cyng Llywelyn Rhys gyfle i holi pennaeth Ysgol Eifion Wyn ynglyn â newid ei gynrychiolaeth ar fwrdd Llywodraethol yr ysgol.

**Penderfynwyd** :- rhoi'r mater i'w drafod unwaith eto ar raglen mis Chwefror.

#### **97.1.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Cynnig Cyng Simon Brooks :- adfer y Clwb Ieuentid fel eitem sefydlog ar y rhaglen

#### **98.1.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**Penderfynwyd** :- ail-yrru llythyr a yrrwyd i Iwan Evans ar 13.11.20 yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

#### **Gohebiaeth :**

##### **99.1.21**

#### **Nation.Cymru-Adeiladu 1500 o dai newydd yng Ngwynedd**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

Ymunodd y Cyng Richard Williams â'r cyfarfod. Nid oedd wedi cael mynediad i'r cyfarfod oherwydd problemau technegol. Aethpwyd ymlaen felly i drafod mater

- **95.1.21**

**Cynnig Cyng. Richard Williams :- trafod biliau trydan Scottish Power am oleuadau Nadolig.**

**Penderfynwyd** : cysylltu efo Scottish Power i ddatgysylltu'r cyflenwad trydan.

##### **100.1.21**

#### **Rhian Wyn Williams-Lloches bws Tremadog**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

##### **101.1.21**

#### **Dafydd Gibbard-Hysbysfwrdd Borth y Gest – wedi gohirio ers cyfarfod 8.12.20.**

**Penderfynwyd** :

- Ysgrifennu'n ôl at Dafydd Gibbard i holi os oedd unrhyw dystiolaeth neu ddogfennaeth gyfreithiol ganddo i gefnogi ei ymateb i bwynt 2 ar y llythyr yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks , Cyng Carol Hayes yn eilio.
- Cynghorwyr Simon Brooks a Selwyn Griffiths i fynd i gael sgwrs anffurfiol gyda aelodau o Gyfeillion Borth y Gest ynglyn â'r hysbysfwrdd yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

### 102.1.21

**Dŵr Cymru-Carthffosiaeth ar strydoedd Porthmadog** – wedi gohirio ers cyfarfod 8.12.20.

Roedd Cyng Richard Williams yn disgwyl derbyn mwy o fanylion gan Dŵr Cymru ynglyn â'r mater ar 15.1.21 felly penderfynwyd gadael y llythyr ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

### 103.1.21

**Cyngor Gwynedd-Bil toiledau cyhoeddus**

Cafwyd sawl rheswm gan Cyng Simon Brooks **dros** dalu'r bil yn llawn. Yn eu plith :-

- nad oedd gan y Cyngor hawl i **beidio** talu'r bil
- fod Cyngor Tref Pwllheli wedi pasio i dalu eu bil nhw
- doedd penderfyniad Cyngor Tref Penrhyndeudraeth ddim a wnelo Cyngor Tref Porthmadog
- swyddog cyfreithiol Cyngor Tref Porthmadog ydi Clerc Cyngor Tref Porthmadog
- nad ydi Cyngor Tref Penrhyndeudraeth wedi arwyddo cytundeb efo Cyngor Gwynedd fel y mae Cyngor Porthmadog
- nad oes cofnod gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth yn cofnodi penderfyniad gan y Cyngor i'r Clerc gysylltu efo Clerc Cyngor Tref Porthmadog
- nad oedd glanhawyr y toiledau ar y cynllun ffyrlo
- Llywodraeth Cymru **nid** Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y cynllun ffyrlo

**Penderfynwyd :**

1. talu'r bil yn llawn yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Carol Hayes yn eilio
2. gyrru copi o ebost Clerc Penrhyndeudraeth at Gadeirydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth er gwybodaeth ac er cwртеisi yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

### 104.1.21

**Lucy Dale-Prisiau 4 diffibriliwr**

**Penderfynwyd :-**

- Archebu 4 diffibriliwr i'w gosod ar 4 safle : Ysgol Eifionydd, Clwb Peldroed, Meithrinfa'r Hen Ysgol a Lidl yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Stuart Nashir-Hallard yn eilio.
- Gyrru llythyr ffurfiol i'r 4 safle i'w hysbysu o fwriad y Cyngor **cyn** archebu'r diffibrilwyr.

Cafwyd cais gan Cyng Llywelyn Rhys i drefnu rhaglen o hyfforddiant CPR ar ôl derbyn y diffibrilwyr.

### 105.1.21

**Hannah Joyce-Cynlluniau canol tref Porthmadog**

**Penderfynwyd :-** gadael y llythyr ar y bwrdd tan gyfarfod mis Chwefror

### 106.1.21

**Mark Church, Liberty Properties Ltd-Ymateb i gais 71.12.20 i osod Llechen Tŷ Moelwyn yn yr adeilad newydd**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

### 107.1.21

**Dafydd Ellis Thomas-Ymateb i lythyr Cyf 80.12.20 Bysus Alltwen**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

### 108.1.21

#### **Pam McLaughlin- Melin yr Wyddfa**

Cyn dod i benderfyniad trafodwyd cyflwr gwael y safle o ran oblygiadau lechyd a Diogelwch y cyhoedd oherwydd bod llechi'n rhydd ar y tō. Cytunwyd pa mor bwysig oedd sicrhau fod perchennog y safle yn diogelu'r safle. Oedd modd cael gwybod os ydi'r Felin yn Adeilad Rhestredig trwy gysylltu gyda CADW? (*Yndi, Gradd 2 ers 1974 a'i ddiwygio yn 2005*) Oes modd ail-gylchu'r adeilad a'r ddatblygu fel fflatiau?

#### **Penderfynwyd :-**

Ysgrifennu at Sioned Williams Pennaeth Adran Economaidd, Cynllunio a Tai ( a chynnwys eost Pam McLaughlin ) a gofyn i Gyngor Gwynedd ddefnyddio grym Deddf Cynllunio Adran 215 i orfodi'r perchennog i ddiogelu'r safle a'i ddatblygu'n briodol gan yrru copi o'r llythyr hefyd i Pam McLaughlin, yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys , Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

### 109.1.21

#### **Alys Lloyd Jones-Grant Meysydd Chwarae**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth gyda diolch i'r Cyng Stuart Nashir-Hallard am ei waith ymchwil.

### 110.1.21

Liz Saville-Roberts-Ymateb i lythyr Cyf 80.12.20 Bysus Alltwen

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

### 112.1.21

#### **Michael Wainwright-Bin halen Morfa Lodge**

Nodwyd fod y lori graeanu wedi bod i fyny i Morfa Lodge (yn dilyn cais gan Cyng Selwyn Griffiths) yn ystod y tywydd rhewlyd diweddar ond nid oedd wedi medru cyrraedd pendraw'r ffordd oherwydd fod ceir trigolion wedi parcio ar ochor y ffordd.

**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt sicrhau bod Morfa Lodge a heibio Ysbyty Madog ar Route 1 yn hytrach nag ar y Secondary Route.

Nodwyd fod biniau halen Morfa Lodge yn fater arall ac y dylai'r trigolion gysylltu efo'r Adran Priffyrdd yn hytrach na'r Cyngor Tref er mwyn datrys y broblem.

**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd i ofyn iddynt sicrhau fod y biniau halen yn cael eu llenwi.

### 113.1.21

Unllais Cymru-Gohirio isetholiadau

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

### 114.1.21

Unllais Cymru-Diwrnod gweithwyr GIG 5.7.21

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

### 115.1.21 Materion Ariannol :

#### **Derbyniadau :**

Cyngor Gwynedd	Incwm meysydd parcio	£12292.21
HSBC	Llog Banc Rhagfyr 2020	£ 00 .28

Llongyfarchwyd y Cynghorwyr Simon Brooks a Richard Williams am eu hymdrechion i sicrhau fod arian meysydd parcio yn dod fel incwm mor sylweddol i Gyngor Tref Porthmadog.

#### **Biliau i'w talu :**

Roedd Cyng Carol Hayes wedi anghofio datgan buddiant ar ddechrau'r cyfarfod a roedd yn ymddiheuro am gostau ei hyfforddiant Zoom. Roedd Cyng Jason Humphreys yn datgan ei wrthwynebiad ar sail costau yr hyfforddiant ac ynglyn â chostau taliadau'r toiledau.

## Awdurdodwyd y taliadau canlynol:-

Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Rhagfyr	£ 37.57
Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 28.80
Marian Roberts	Costau teithio Rhagfyr	£ 4.41
Marian Roberts	Cyflog Clerc Rhagfyr 2020	£ 603.20
Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2020	£150.80
Cyngor Gwynedd	Gwasanaeth toiledau cyhoeddus	£8,000.00
R J Electrics	Goleuadau Nadolig	£5,504.11
R J Electrics	Atgyweirio goleuadau presennol	£ 592.56
R J Electrics	Tensile Loading Test	£ 774.00
Faris Raouf – Unllais Cymru	Hyfforddiant CH i ddefnyddio Zoom / tablet	£ 288.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

### **116.1.21 Ceisiadau Cynllunio**

#### **(a) ebost 14.12.20**

**Rhif Cais .: C20/0837/44/LL**

Lleoliad : Hadfer Campsite, Bwlch Y Moch, Tremadog, Porthmadog, LL49 9SN

Bwriad : Gosod system carthion newydd yn lle'r un presennol

#### **(b) ebost 15.12.20**

**Rhif Cais .: C20/0988/44/LL**

Lleoliad : Tir Ger 14 Heol Y Wyddfa, Porthmadog, LL49 9BT

Bwriad : Adeiladu modurdy

#### **(c) ebost 22.12.20**

**Rhif Cais .: C20/1002/44/LL**

Lleoliad : Garreg Goch Morfa Bychan, Porthmadog, LL49 9YD

Bwriad: Adeiladu un annedd (marchnad leol)

#### **(ch) ebost 22.12.20**

**Rhif Cais.: C20/1052/44/AC**

Lleoliad: Tesco Plc, Tesco Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NU

Bwriad : Diwygio amod 7 ar ganiatad cynllunio C02D/0145/44/LL er caniatáu derbyn nwyddau i flaen y siop rhwng 22.00 awr a 07.00 awr

Eglurodd y Clerc fod y Cynghorwyr wedi gorfod ymateb yn unigol i'r ceisiadau uchod oherwydd gofynion amser. Nodwyd fod rhaid ymchwilio ar safwê Cynllunio Gwynedd i ddarganfod canlyniad pob cais ac mai ond 3 gwrthwynebiad sydd ei angen cyn i'r cais cynllunio orfod mynd o flaen pwyllgor cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55yh.

Yn gywir,

Marian Roberts

*Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE*

*Ffôn / Tel : 01766 513709*

*E-bost/ e-mail : [clerccyngtreport@gmail.com](mailto:clerccyngtreport@gmail.com)*

